O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2069 (Cy.191)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) (Diwygio) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1984 (Cy.165)) i'r perwyl pan fo'r Rheoliadau hynny yn crybwyll "y Rheoliad CE", bydd y cyfeiriad hwnnw yn newidiadwy i raddau penodedig. Bydd unrhyw gyfeiriad o'r fath yn gyfeiriad at Reoliad (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegu fitaminau a mwynau a sylweddau eraill penodol at fwydydd (OJ Rhif L404, 30.12.2006, t.26) fel y caiff y Rheoliad hwnnw ei ddiwygio o bryd i'w gilydd gan newidiadau a wneir i Atodiad I neu II ohono. Mae'r Atodiadau hyn wedi eu diwygio o'r blaen gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1170/2009 (OJ Rhif L314, 1.12.2009, t.36).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2069 (Cy. 191)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed *14 Awst 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *17 Awst 2010*

Yn dod i rym *1 Hydref 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 17(2), 26(1)(a) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), fel y darllenir yr adrannau hynny ynghyd â pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**).

Yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i

(**1**) 1990 p.16; amnewidiwyd adran1(1) a (2) (y diffiniad o "*food*") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17 a 48 gan baragraffau 12 a 21, yn ôl eu trefn, o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28). Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau "*the Ministers*" yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, ac maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (2006 p.32).

(**3**) 1972, p.68. Cafodd paragraff 1A o Atodlen 2 ei fewnosod gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (2006 p.51) a'i ddiwygio gan Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (2008 p.7).

Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at yr offeryn UE a grybwyllir yn rheoliad 3 gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offeryn hwnnw fel y caiff Atodiadau I a II ohono eu diwygio o bryd i'w gilydd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**1**), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw tra'r oedd y Rheoliadau hyn yn cael eu llunio a'u gwerthuso.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 1 Hydref 2010.

Diwygio Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007

2. Mae Rheoliadau Ychwanegu Fitaminau, Mwynau a Sylweddau Eraill (Cymru) 2007(**2**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 3.

3. Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn lle'r diffiniad o "y Rheoliad CE" rhodder y diffiniad a ganlyn—

> ""ystyr "y Rheoliad CE" ("*the EC Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1925/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegu fitaminau a mwynau a sylweddau eraill penodol at fwydydd, fel y caiff Atodiad I neu II i'r Rheoliad hwnnw ei ddiwygio o bryd i'w gilydd(**3**);".

(**1**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468 mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu – Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

(**2**) O.S. 2007/1984 (Cy.165), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/3252 (Cy.282).

(**3**) OJ Rhif L404, 30.12.2006, t.26. Diwygiwyd y Rheoliad hwn ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1170/2009 (OJ Rhif L314, 1.12.2009, t.36).

Gwenda Thomas

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

14 Awst 2010